

GWEITHDREFN

Teitl:	TACLO'R TACLE	
Maes Arfer / Busnes:	Cudd-wybodaeth	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Uned Cudd-wybodaeth a Throseddau Cyfundrefnol yr Heddlu	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	01/09/97	
Adolygwyd Ddiwethaf:	08/11/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:		Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	13	Y Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Cadw De Cymru yn ddiogel drwy sicrhau bod holl gudd-wybodaeth Taclo'r Tacle yn cael ei chasglu, ei rheoli a'i gweithredu'n foesebol yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, gan ddiogelu uniondeb ac enw da Heddlu De Cymru a lleihau risg bosibl i'n staff a'n cymunedau.

CANLLAWIAU:

Mae pob agwedd ar y Canllawiau hyn a'r Weithdrefn hon yn orfodol, felly cyfeiriwch at y Weithdrefn.

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

Nid oes angen asesiad risg lechyd a Diogelwch.

GWEITHDREFN:

Mae'r wybodaeth a ddarperir i ni gan ein cymunedau yn hanfodol ac yn dangos lefel yr ymddiriedaeth a'r hyder sydd ganddynt yn ein gallu i ymateb i'w hanghenion. Bydd achlysuron pan fydd aelodau o'n cymunedau am aros yn ddi-enw wrth ddarparu gwybodaeth. Mae gan yr elusen genedlaethol [Taclo'r Tacle](#) strwythurau sefydledig i fod yn sianel ar gyfer y wybodaeth hon, ac mae wedi'i chontractio gan Heddlu De Cymru i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Mae angen i staff sicrhau eu bod yn glynu wrth y *Model Brysbennu Cudd-wybodaeth (MBC)* o ran yr holl gudd-wybodaeth sy'n dod i law drwy Taclo'r Tacle, a rhaid iddynt sicrhau ei bod yn cael ei rheoli, ei dosbarthu a'i gweithredu mewn modd proffesiynol a sensitif. Mae angen i'r weithdrefn gynnwys yr elfennau canlynol:

- Rhaid i bob aelod o staff (gan ddibynnu ar y rôl) dderbyn lefelau priodol o hyfforddiant i sicrhau bod yr MBC yn cael ei roi ar waith yn gywir.
- Rhaid i bob aelod o staff gydymffurfio â'r weithdrefn a amlinellir yn yr MBC, sy'n cynnwys cofnodi, asesu risg a gweithredu ar gudd-wybodaeth.
- Mae systemau cudd-wybodaeth yr heddlu wedi cael eu diweddarau i ymdrin â gofynion yr MBC a chaniatáu ar gyfer monitro perfformiad a chydymffurfiaeth.

Mae apeliadau Taclo'r Tacle i ddod o hyd i'r bobl y mae'r heddlu yn fwyaf awyddus i'w dal yn galluogi'r elusen i gynnig gwobrau ar gyfer apeliadau sylweddol i olrhain pobl y mae'r heddlu yn awyddus i'w dal.

Mae Taclo'r Tacle hefyd yn gallu cynnig gwobrau ar gyfer apeliadau sylweddol eraill yr heddlu e.e. pobl y mae'r heddlu'n awyddus i'w dal; ceisio manylion adnabod; ceisio lleoliad

ac ati.

Mae ymgyrchoedd â ffocws Tactlo'r Tactle yn ei gwneud yn bosibl i roi gwybodaeth i'r gymuned am atal troseddau a chodi ymwybyddiaeth o droseddau er mwyn mynd i'r afael â throseddau o natur leol/penodol, drwy ddefnyddio'r cyfryngau ac ymgyrchoedd marchnata.

Mae'r Ditectif Arolygydd o Swyddfa Cudd-wybodaeth yr Heddlu yn cynrychioli'r heddlu mewn cyfarfodydd partneriaeth chwarterol Cymru gyfan a chenedlaethol Tactlo'r Tactle, lle y mae canlyniadau/llwyddiannau Tactlo'r Tactle yn cael eu cyflwyno.